# PWYLLGOR CRAFFU AR Y CYD – DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD AC ADDYSG A PHLANT

## 18fed O FEDI 2015

***(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)***

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd A.P. Cooper (Cadeirydd)**

**Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd**

**Y Cynghorwyr:** **A. Davies, D.B. Davies, J.A. Davies, D.C. Evans, I.J. Jackson, A. James, J.P. Jenkins, A.D.T. Speake, S.E. Thomas, D.E. Williams**

**Addysg a Phlant**

**Y Cynghorwyr:** **D.J.R. Bartlett, C.A. Campbell, J.M. Charles, W.G. Hopkins, P. Hughes-Griffiths, J.D. James, P.E.M. Jones, M.J.A. Lewis, T. Theophilus**

**Y Cynghorydd W.T. Evans – Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd W.J. Lemon**

**Mrs. V. Kenny – Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig (Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant)**
**Mr. S. Pearson – Rhiant-lywodraethwr (Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant)**

**Hefyd yn bresennol:**

**Y Cynghorydd H.A.L. Evans –** Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros y Gwasanaethau Technegol
**Y Cynghorydd G.O. Jones –** Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

Mr. E. Bowen – Cyfarwyddwr Dros Dro yr Amgylchedd
Mr. R. Sully – Y Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
Mr. S. Pilliner – Y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg
Ms. J. Edwards – Pen-Swyddog Busnes a Datblygu
Mr. M. Hughes – Ymgynghorydd Cynorthwyol

**Lleoliad:** Siambr Neuadd y Sir, Caerfyrddin (10:00 – 11:05yb)

### 1. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd A.P. Cooper yn Gadeirydd y cyfarfod.**

### 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr I.W. Davies, W.J. Lemon, D.W.H. Richards, K.P. Thomas, W.G. Thomas a J.E. Williams.

**PWYLLGOR CRAFFU AR Y CYD – DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD AC ADDYSG A PHLANT**
**18fed O FEDI 2015**

## 3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

| Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd D.J.R. Bartlett | Eitem 6 | Llywodraethwr yn Ysgol Dyffryn Aman. |
| Y Cynghorydd C.A. Campbell | Eitem 6 | Mae ganddo ddau o blant mewn addysg uwchradd a allai barhau mewn addysg ôl-16. |
| Y Cynghorydd A. James | Eitem 6 | Mae ganddo blant mewn addysg amser llawn. |
| Mr. S. Pearson | Eitem 6 | Mae ganddo blant mewn addysg amser llawn. |

## 4. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwipiaid y pleidiau.

## 5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni chafwyd dim cwestiynau gan y cyhoedd.

## 6. CYNNAL CLUDIANT I'R YSGOL/COLEG AR GYFER DISGYBLION ÔL-16

*Roedd y Cynghorydd D.J.R. Bartlett wedi datgan buddiant sef ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Dyffryn Aman.*

*Roedd y Cynghorydd C.A. Campbell wedi datgan buddiant sef bod ganddo ddau o blant mewn addysg uwchradd a allai barhau mewn addysg ôl-16.*

*Roedd y Cynghorydd A. James wedi datgan buddiant sef bod ganddo blant mewn addysg amser llawn.*

*Roedd Mr. S. Pearson wedi datgan buddiant sef bod ganddo blant mewn addysg amser llawn.*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a fanylai ar gynnig i godi tâl am gludiant i'r ysgol/coleg ar gyfer disgyblion ôl-16. Cyflwynwyd yr adroddiad i aelodau'r ddau

Bwyllgor Craffu er mwyn iddynt roi sylwadau, fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol.

Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg wrth y Pwyllgor fod y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod ar 24ain Chwefror 2015, wedi cymeradwyo strategaeth tair blynedd y gyllideb, a bod rhan o hynny'n cynnwys cytundeb "i barhau â'r Gwasanaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg gan fynd ati i godi tâl, a fyddai'n cael ei gyflwyno'n raddol dros nifer o flynyddoedd", yn amodol ar "eithrio unrhyw blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn ogystal ag eithrio'r plant sy'n ddisgyblion yn ysgol Pantycelyn ar hyn o bryd".

Hefyd atgoffwyd y Pwyllgor gan y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg fod cludiant ôl-16 yn wasanaeth anstatudol a bod y Cyngor hyd yma wedi dewis defnyddio disgresiwn a darparu gwasanaeth. Fodd bynnag, oherwydd yr her ariannol sylweddol a wynebai'r Awdurdod ar hyn o bryd a hyd y gellir rhagweld yn y dyfodol, roedd y cynnig hwn wedi cael ei lunio er mwyn cynnal gwasanaeth cludiant ôl-16, yn dilyn trafodaethau â'r prif bartneriaid.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Cyfeiriwyd at drafodaethau mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ym Mehefin 2015 pryd y rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag ysgolion a Choleg Sir Gâr a gofynnwyd pa gynnydd a wnaethpwyd. Hefyd gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r cymhorthdal a ddarperir i'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg wrth y Pwyllgor fod swyddogion wedi ceisio, trwy gydol y trafodaethau, i gynnal y gwasanaeth. Roedd y Coleg hefyd yn wynebu pwysau ariannol ac er bod y swyddogion wedi ceisio cael rhagor o gyfraniadau, nid oedd hynny'n bosibl. Fodd bynnag, roedd y Coleg wedi ymrwymo i gynnal ei gyfraniad presennol sef tua £700,000 i gefnogi'r gwasanaeth. £477,000 oedd effaith net cymhorthdal yr Awdurdod.

Yn ateb i gwestiwn ynghylch y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor Sir yn Chwefror 2015, ail-gadarnhaodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg y byddai unrhyw ddisgyblion a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cael eu heithrio rhag y tâl ac y byddai'r holl blant sy'n ddisgyblion yng Nghampws Pantycelyn o Ysgol Bro Dinefwr ar hyn o bryd, yn cael eu heithrio hefyd. Fodd bynnag, yn achos plant ysgol gynradd yn ardal Llanymddyfri a fyddai'n symud i Ysgol Bro Dinefwr yn y dyfodol, ni fyddent hwy'n cael eu heithrio petaent yn dymuno parhau mewn addysg ôl-16.

Awgrymwyd bod addysg yn ffactor allweddol o ran gwella lles cymunedau a mynegwyd pryder mawr y byddai codi tâl nid yn unig yn amddifadu'r bobl ifanc hynny a oedd yn dlotach yn ariannol ond hefyd y rhai oedd yn dlawd yn ddiwylliannol ac nad oeddynt o anghenraid yn cael eu gwerthfawrogi na'u cefnogi gartref rhag cael safon dda o addysg. Roedd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg yn cydnabod bod hwn yn fater anodd ac y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i holl sylwadau'r Pwyllgor fel rhan o'r broses ymgynghori.

Cyfeiriwyd at Grŵp Ffocws yr aelodau a gyfarfu yn y misoedd diwethaf i drafod y polisi cludiant i'r ysgol. Dywedwyd bod y Grŵp yn unedig yn ei wrthwynebiad i godi tâl am gludiant ôl-16 ond pan ddaethant wyneb yn wyneb â gwir sefyllfa'r gyllideb roedd yr aelodau'n ystyried bod £100 y pen yn dâl rhesymol i'w godi, petai'n cael ei weithredu. Fodd bynnag, roedd y tâl o £200-250 a gynigiwyd yn yr adroddiad yn uwch o lawer na hynny ac yn annerbyniol, yn enwedig gan y byddai'n sicr o gynyddu maes o law. Roedd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg yn cydnabod bod y Grŵp Ffocws wedi gwrthwynebu codi tâl ond nid oedd yn cofio bod unrhyw drafodaeth wedi digwydd ynghylch codi tâl o £100. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y tâl wedi cael ei gyfrifo ar sail ymrwymiad presennol y gyllideb, asesiad o niferoedd y disgyblion a faint fyddai'n defnyddio'r gwasanaeth.

Gofynnwyd a fyddai disgwyl i'r bobl ifanc dalu ymlaen llaw am gludiant neu a fyddai modd iddynt dalu mewn camau drwy gydol y flwyddyn. Hefyd cyfeiriwyd at y stigma oedd yn gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim a gofynnwyd am sicrhad na fyddai'r rhai fyddai'n derbyn cludiant am ddim yn cael eu henwi. Cytunodd Cyfarwyddwr Dros Dro yr Amgylchedd y gellid ystyried gwahanol fathau o dalu a chadarnhaodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg y byddai'r awgrym hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses ymgynghori. Hefyd sicrhaodd yr aelodau y byddai'r holl ddisgyblion, p'un a fyddent yn talu neu beidio, yn derbyn yr un tocyn.

Mynegwyd pryder ynghylch natur ranedig y tâl arfaethedig drwy lethu pobl ifanc â chostau ychwanegol am addysg, hyd yn oed cyn iddynt ystyried astudio gradd mewn prifysgol. Awgrymwyd mai prin oedd y manylion ynghylch yr holl ffigyrau a ddyfynnwyd yn yr adroddiad, yn enwedig o ran niferoedd y disgyblion ar lwybrau sy'n bod eisoes, y niferoedd sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd, yn ogystal ag effaith bosibl Credyd Cynhwysol ar y rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. Hefyd cyfeiriwyd at ardaloedd megis Brynaman lle byddai disgyblion mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol yn talu costau gwahanol am fynychu chweched dosbarth mewn ysgolion neu golegau (e.e. roedd Castell-nedd Port Talbot yn codi tâl o £100 ar hyn o bryd tra roedd Sir Gaerfyrddin yn ystyried codi tâl o £200+). Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg bod y Cyngor Sir wedi cytuno ar yr egwyddor a bod hyn yn unig yn ddechrau'r broses ymgynghori oedd yn angenrheidiol ar gyfer newid polisi. Roedd yn cydnabod bod y taliadau'n amrywio ar draws yr wyth awdurdod yng Nghymru ond bod y darlun yn newid yn barhaus. Nododd fod nifer o fyfyrwyr eisoes yn teithio i Goleg Gŵyr o Sir Gaerfyrddin ac yn talu tua £280 y flwyddyn. Hefyd atgoffodd y Pwyllgor fod y rhwydwaith bysiau i'r ysgolion/colegau yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial (gyda 95% ohono'n cael ei lenwi ar hyn o bryd).

Awgrymwyd bod y mwyafrif o'r Pwyllgor yn anhapus â'r newid arfaethedig a'r modd y cafodd hwn ei gynnwys yn strategaeth gyffredinol y gyllideb gyda'r aelodau'n aneglur ynghylch sawl mater. Gofynnwyd sut roedd yr Awdurdodau Lleol eraill wedi ymdrin â'r mater hwn ac ymgynghori yn ei gylch ac a fyddai modd rhoi'r gorau i broses ymgynghori Sir Gaerfyrddin tan y ceid rhagor o wybodaeth yn ymwneud â goblygiadau'r cynnig hwn. Dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro yr Amgylchedd fod y broses ymgynghori'n cael ei weithredu'n unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor Sir. Atgoffodd y Pwyllgor fod Adran yr Amgylchedd wedi

wynebu gostyngiadau mawr mewn cyllid dros nifer o flynyddoedd ac yn y gorffennol gallai'r gwasanaethau oedd yn bodoli eisoes ysgwyddo'r gostyngiadau hyn. Ond bellach roedd cynigion megis y rhain yn cael effaith uniongyrchol ar drigolion y sir. Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg fod y broses ymgynghori'n ofyniad statudol yr oedd yn rhaid ei weithredu ac na ellid ei ohirio. Roedd strategaeth y gyllideb yn cynnwys cyfeiriad at gludiant ôl-16 oedd yn destun ymgynghori ar hyn o bryd cyn y byddai'r Cyngor Sir yn ystyried gwneud newid ffurfiol i'r polisi. Atgoffodd ef yr aelodau y gallent gyflwyno sylwadau ychwanegol yn ystod y broses ymgynghori yn ogystal â thrwy'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb a fyddai'n dechrau yn yr hydref.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd egwyddor addysg am ddim a mynegwyd pryder y byddai yna deuluoedd, er na fyddent yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn cael anhawster talu taliad o'r fath. Dadleuwyd y dylai'r Awdurdod fod yn annog pobl ifanc i aros mewn addysg ac y byddai codi tâl am gludiant ôl-16 yn eu hannog i beidio â mynd i addysg bellach. Hefyd cwestiynwyd yr ymgynghoriad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ac awgrymwyd bod y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad diwethaf ynghylch y gyllideb ac a gytunodd â'r cynnig i godi tâl yn bobl canol oed heb blant. Y farn hefyd oedd y byddai'r tâl yn atal datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn ysgolion uwchradd y Sir gan y byddai'r disgyblion yn dewis yr ysgol agosaf lle roedd chweched dosbarth yn hytrach nag un oedd yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cyfeiriwyd at y cynnydd yng nghostau prydau ysgol ac ynghyd â'r tâl ychwanegol am fynychu addysg ôl-16 awgrymwyd y byddai hynny'n cael effaith sylweddol ar deuluoedd oedd â dau o blant neu ragor. Cydnabuwyd bod dyletswyddau gofal ariannol a moesol yr oedd angen eu hystyried ond y gallai'r Awdurdod ddysgu o brofiadau Awdurdodau eraill. Hefyd gofynnwyd a roddwyd ystyriaeth i effaith rhieni yn peidio â thalu ac yn gyrru disgyblion i'r ysgol yn lle hynny (yn ogystal â'r allyriadau a fyddai'n deillio o hynny) a hefyd a oedd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi rhoi ystyriaeth o gwbl i grwpiau lleiafrifol a fyddai'n cael eu rhoi dan anfantais ariannol. Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg fod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal a chan ei bod yn ddogfen 'fyw' y byddai'n cael ei haddasu'n barhaus wrth i'r ymatebion ddod i law yn ystod y broses ymgynghori. Atgoffodd ef y Pwyllgor fod y Cyngor wedi gwneud penderfyniad i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ac yn dilyn hynny byddai'r holl sylwadau a gyflwynir yn cael eu coladu a'u hystyried cyn i'r Cyngor Sir ddod i benderfyniad terfynol.

Gwrthododd y Pwyllgor gymeradwyo'r cynnig a amlinellwyd yn yr adroddiad a chynigiwyd bod y Bwrdd Gweithredol, cyn bwrw ymlaen dim rhagor, yn gofyn am ragor o fanylion gan Awdurdodau Lleol eraill Cymru a oedd eisoes wedi gweithredu taliadau ar gyfer cludiant ôl-16, er mwyn egluro sut y cafodd y rhain eu gweithredu a'u heffaith ar addysg ôl-16 yn y tymor hir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Bwrdd Gweithredol yn gofyn i Awdurdodau Lleol eraill Cymru am fanylion llawn ynghylch y modd y gwnaethant hwy weithredu taliadau am gludiant ôl-16 a cheisio eglurhad ynghylch a oedd y rhain wedi effeithio ar addysg ôl-16 yn y tymor hir.**

# PWYLLGOR CRAFFU AR Y CYD – DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD AC ADDYSG A PHLANT

**18fed O FEDI 2015**

**LLOFNODWYD:** ______________________ (Cadeirydd)

**DYDDIAD:** ______________________